Helpu rhieni unigol

Pennod 3

Pennod 3

Helpu rhieni unigol

1 Mae cyfradd cyflogaeth y rhiant unigol wedi gwella'n sylweddol ers 1997 ac mae ar lefel o 56.6 y cant, sef yr uchaf erioed. Fodd bynnag, mae nifer y rhieni unigol sydd allan o waith ac yn hawlio Cymhorthdal Incwm yn parhau i fod yn uchel. Mae anghyfartaledd parhaus, gyda chyfraddau cyflogaeth rhieni unigol yn llusgo y tu ôl i gyfraddau cyflogaeth mamau â phartneriaid.

2 Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar dlodi. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio yn dlawd, fel y diffinnir gan deuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, ac maent yn debygol iawn o brofi tlodi ac amddifadedd parhaus. Mae'r Llywodraeth yn helpu i sicrhau bod darpariaeth ar gael i alluogi rhieni unigol i weithio, ond yn gyfnewid am hynny, credwn fod gan rieni unigol gyfrifoldeb dros ymdrechu o ddifrif i ddychwelyd i'r gwaith, yn arbennig unwaith y bydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd 11 oed. Gall symud i mewn i waith wella eu bywydau eu hunain, a bywydau eu plant hefyd.

Yr her

3 Helpu rhieni unigol i ddychwelyd i'r farchnad lafur yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau eu cynhwysiant cymdeithasol a'r llwybr gorau allan o dlodi iddynt hwy a'u plant. Yn ogystal, mae'r cynnydd mewn cyflogaeth gynaliadwy sy'n deillio o hyn yn y tymor hir yn gwella potensial cynhyrchiol yr economi, a chaiff yr enillion hyn eu lledaenu'n fwy cyfartal drwy gymdeithas.

4 Mae tua 1.8 miliwn o rieni unigol o oedran gweithio ym Mhrydain Fawr, ac o'u plith mae llai na 170,000 yn dadau unigol. O'r cyfanswm, mae 787,000 o rieni unigol ar Gymhorthdal Incwm, 230,000 yn llai nag yn 1997. Yn ogystal, mae nifer fach yn hawlio budd-dal am eu bod yn sâl neu'n anabl, neu'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Mae cyfran sylweddol o rieni unigol yn symud o Gymhorthdal Incwm i fudd-daliadau analluogrwydd pan fydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd 16 oed, a dyna pam bod angen pecyn cydlynol o ddiwygiadau arnom ar gyfer y ddau grŵp.

5 Yn ystod gwanwyn 2005, cyrhaeddodd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer rhieni unigol 56.6 y cant, sef cynnydd o ychydig mwy nag 11 o bwyntiau canran ers 1997. Hon yw'r gyfradd cyflogaeth rhieni unigol uchaf erioed, ac am y tro cyntaf erioed, mae mwy na miliwn o rieni unigol bellach yn gweithio – 318,000 yn fwy nag yn 1997. Er gwaethaf y llwyddiant hwn, mae nifer y rheini unigol sydd allan o waith ac yn hawlio Cymhorthdal Incwm yn parhau i fod yn uchel, yn hanesyddol ac mewn perthynas â gwledydd eraill.

Nid yw cymariaethau rhyngwladol yn syml, at ei gilydd, gan fod y diffiniad o riant unigol yn amrywio o wlad i wlad. Ond ymhlith nodweddion allweddol pob gwlad sydd â chyfran uchel o rieni unigol mewn cyflogaeth mae argaeledd gofal plant ffurfiol sy'n fforddiadwy ac o safon, a gofynion cadarn i geisio gwaith ynghyd â'r cymhellion ariannol i wneud hynny. Yn ogystal, dengys y dystiolaeth ryngwladol mai cyfyngedig iawn yw'r fantais y gall amodoldeb llymach ei gael os caiff ei gymhwyso heb gymorth gofal plant a chymhellion i weithio. Gall gofynion mwy cadarn fod yn allweddol i gael rhieni unigol oddi ar fudd-daliadau, ond mae'r amgylchedd macroeconomaidd yn benderfynydd allweddol o'u cyfranogiad yn y farchnad lafur.

6 Yn y DU, mae rhieni unigol, yn arbennig mamau unigol yn llawer llai tebygol o gymryd rhan yn y farchnad lafur na mamau â phartneriaid sydd â phlant o'r un oed. Mae tua 72 y cant o famau â phartneriaid yn gweithio, o gymharu â 56.6 y cant o famau unigol a 70 y cant o dadau unigol. Mae nifer o resymau dros y ffaith bod canran uwch o dadau unigol yn gweithio na mamau unigol. Mae'r rhain yn cynnwys, ar gyfartaledd, y ffaith bod ganddynt lai o blant a phlant hŷn, maent yn hŷn na'r mamau unigol (mae 87 y cant dros 35 oed, o gymharu â 58 y cant o famau unigol) ac maent yn meddu ar gymwysterau uwch.

7 Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd rhieni unigol nad ydynt yn gweithio yn byw mewn cartref incwm isel, ac maent yn

Ffigur 3.1: Rhieni unigol cyflogedig 25 i 49 oed yn 2003[1]



Ffynhonnell: Eurostat

Nodiadau: 1 Mae'r ffigurau ar gyfer pob rhiant unigol o 25 i 49 oed a oedd mewn cyflogaeth yn 2003, ac eithrio'r rheini a oedd yn hunangyflogedig.
2 Data annibynadwy neu ansicr.
3 Amcangyfrif Eurostat.

debygol iawn o brofi tlodi ac amddifadedd cyson.

Dod o hyd i waith yw'r ffordd fwyaf sicr o ddod allan o dlodi oherwydd:

- mae newid yn statws y farchnad lafur ac enillion yn cyfrif am ryw ddwy ran o dair o'r bobl sy'n symud o gartrefi incwm isel;
- mae teuluoedd nad ydynt yn gweithio bedair gwaith yn fwy tebygol o brofi caledi difrifol na'r rheini sy'n gweithio; a
- byddai cyflawni'r targed cyflogaeth ar gyfer rhieni unigol, sef 70 y cant, yn codi tua 300,000 o blant allan o gartrefi incwm isel, a fyddai'n cyfrannu at ein targed o haneru tlodi ymysg plant erbyn 2010 yn sylweddol.

Cynnydd hyd yma

8 Ers 1997, rydym wedi gwneud camau anferth wrth ddatblygu'r cymorth sydd ar gael i rieni unigol. Nid yw'r boblogaeth rhieni unigol yn sefydlog: mae pobl yn symud i mewn ac allan o'r sefyllfa o fod yn rhieni unigol. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i helpu rhieni i aros mewn gwaith, i ddychwelyd i'r gwaith ac i gydbwyso gofynion gwaith a'r teulu yn effeithiol. Mae'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, credydau treth a'r broses o gyflwyno polisïau hyblyg, sy'n ystyriol o deuluoedd yn y gweithle o fudd i bob rhiant.

9 Ym mis Ebrill 2001, dechreuasom gyflwyno cyfweliadau gorfodol a oedd yn canolbwyntio ar waith i bob rhiant unigol. Mae'r rhain yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â gweithio. Mae tua 750,000 o rieni unigol wedi ymuno â'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol er mwyn cael cymorth, gyda chefnogaeth eu hymgynghorydd personol, ac mae 410,000 wedi symud i mewn i waith. Mae'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, a lansiwyd yn genedlaethol ym mis Hydref 1998, yn rhaglen wirfoddol sy'n helpu rhieni unigol i gyflawni parodrwydd am swydd drwy amrywiaeth o ddarpariaethau. Mae'r Fargen Newydd yn effeithiol iawn: mae un o bob dau riant unigol yn symud i mewn i waith gyda chymorth eu hymgynghorydd personol.

10 Mae llwyddiant y mentrau hyn wedi ein hannog i fynd ymhellach – gan gyflwyno cyfweliad ychwanegol ar ôl chwe mis ar gyfer hawlwyr newydd. O fis Hydref 2005, bu i ni ymestyn hyn i gyfweliadau chwarterol ar gyfer rhieni unigol y mae eu plentyn ieuengaf yn 14 oed o leiaf, er mwyn paratoi unigolion ar gyfer y cyfnod pontio i gyflogaeth pan fydd eu plentyn yn cyrraedd oedran gadael ysgol.

11 Rydym yn parhau i adolygu ein rhaglenni, a gweithredu newidiadau lle y bydd hyn yn helpu rhieni unigol i symud i mewn i waith neu i aros mewn gwaith. Er enghraifft, rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer newid y rheol 'enillion tybiannol', a all gymell rhieni unigol i beidio â chymryd rhan mewn rhai rhaglenni. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i gael gafael ar ystod ehangach o hyfforddiant a chymorth lleol heb i hyn effeithio ar eu hawl i

gael budd-dal. Rydym hefyd am weithio'n rhagweithiol gyda chyflogwyr i ddatblygu rhaglenni rhagflas ar gyfer rhieni unigol.

12 Rydym am gefnogi rhieni unigol er mwyn helpu i'w cadw yn y gwaith a'u hatal rhag symud i fywyd ar fudd-daliadau neu ddychwelyd at hynny. Byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o gynyddu'r cymorth y gall y Ganolfan Byd Gwaith ei roi i rieni unigol sy'n symud i mewn i waith neu sydd eisoes yn gweithio. A byddwn yn sicrhau bod rhieni unigol yn gwybod y gallant gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith am gyngor ar yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael iddynt – gan gynnwys help gyda chostau tai, credydau treth, gofal plant a mwy – cyn gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â chydbwyso gwaith a'u cyfrifoldebau teuluol.

13 Mae'r rhaglenni a ddatblygwyd gennym, yn rhoi mwy o ddewisiadau nag erioed i rieni unigol. Yn Lloegr, rydym wedi sefydlu 524 o raglenni lleol Cychwyn Cadarn, gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau dysgu cynnar, gofal plant, gwasanaethau iechyd a theuluol i fwy na 400,000 o blant yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r rhain hefyd yn rhoi cymorth a chyngor amhrisiadwy i rieni.

14 Mae ein strategaeth gofal plant ddeg mlynedd, *Choice for parents, the best start for children*,[23] yn datblygu'r cyflawniad hwn drwy rwydwaith o 3,500 o ganolfannau plant integredig ledled y wlad – un ym mhob cymuned. Bydd rhwydweithiau Ysgolion Estynedig yn darparu gofal plant cofleidiol i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio. Bydd ein hymrwymiad i ddarparu man gofal plant y tu allan i'r ysgol rhwng 8am a 6pm ar gyfer pob plentyn o 3 i 14 oed, erbyn 2010, yn fantais wirioneddol i alluogi rhieni – yn arbennig rhieni unigol – i fynd i'r gwaith, gan wybod bod gan eu plant fan diogel a chyffrous i fynd iddo. Erbyn 2010, bydd mwy na 2 filiwn o leoedd gofal plant cynaliadwy ar gyfer plant hyd at 14 oed. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod gofal priodol o safon ar gael er mwyn i rieni gael mwy o ddewis wrth gydbwyso eu bywyd gwaith a'u bywyd teuluol.

15 Ers datganoli, mae Gweithrediaeth yr Alban wedi datblygu'r strategaeth gofal plant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 1998 – *Meeting the childcare challenge – A childcare strategy for Scotland*.[24] Mae hefyd yn bwriadu sicrhau bod gofal plant o safon, sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy ar gael i bob cymdogaeth. Yn ogystal, mae'r Working for Families Fund yn cefnogi rhieni mewn grwpiau ac ardaloedd difreintiedig drwy ddarparu gofal plant fforddiadwy a hygyrch, er mwyn sicrhau nad yw hyn yn eu rhwystro rhag cael mynediad i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

16 Cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol strategaeth gofal plant i Gymru[25] ym mis Tachwedd 2005, gan ddatblygu'r llwyddiannau hyd yn hyn ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant hygyrch, fforddiadwy ac o safon sydd ar gael yn lleol yng Nghymru. Mae'r prosiect Genesis Cymru, a ariennir gan £12.5 miliwn o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn darparu pecyn cyngor, canllawiau, cymorth a gofal plant cynhwysfawr i bobl sy'n awyddus i gael

mynediad at waith, hyfforddiant neu gyfleoedd dysgu.

17 Mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer sbardun newydd i sicrhau mynediad i ofal plant fforddiadwy o safon i helpu'r rheini sy'n magu teulu ifanc i ddechrau yn y gwaith neu i ddychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal, fel rhan o Becyn Arian i Blant a Phobl Ifanc, caiff seilwaith Cychwyn Cadarn ei ehangu, gan gyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau cymdeithasol a chyn ysgol i blant a theuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ategir hyn gan fenter fawr i ddatblygu Ysgolion Estynedig, sy'n cynnig gweithgareddau strwythuredig o safon cyn ac ar ôl ysgol, sydd wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau penodol y disgyblion a'u teuluoedd a chymunedau.

18 Cyflwynodd Deddf Cyflogaeth 2002 ddeddfwriaeth newydd yn y DU yn arbennig i helpu rhieni sy'n gweithio. Ers 2003, mae rhieni â phlant ifanc a phlant anabl wedi derbyn mwy o gymorth nag erioed o'r blaen i gydbwyso gofal plant a gwaith mewn ffyrdd sydd o fudd i bawb: cyflogwyr, cyflogeion a'u plant. Mae hawliau i ofyn am weithio hyblyg a chynnydd o ran tâl a chyfnodau mamolaeth a thadolaeth oll yn cynorthwyo rhieni i gyflawni cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau yn y cartref ac yn y gwaith.

Ymagwedd fwy radical

19 Mae rhieni unigol, yn naturiol, yn pryderu y dylai eu plant dderbyn gofal da os byddant yn mynd i'r gwaith. Mae hyn yn wir nid dim ond ar gyfer y rheini y mae eu plant yn rhy ifanc i fynd i'r ysgol, ond hefyd ar gyfer rhieni unigol â phlant o oedran ysgol, sydd angen cael tawelwch meddwl y byddant yn derbyn gofal da ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae'n gywir y dylai'r Llywodraeth helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael i alluogi rhieni unigol i weithio, ond yn gyfnewid am hyn, credwn fod gan rieni unigol gyfrifoldeb dros ymdrechu o ddifrif i ddychwelyd i'r gwaith, yn arbennig unwaith y bydd eu plentyn ieuengaf yn cyrraedd 11 oed. Bydd hyn yn gwella eu bywyd eu hunain, a bywydau eu plant hefyd.

Ymestyn cyfleoedd

Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith amlach

20 Mae ein proses o gyflwyno cyfweliadau blynyddol gorfodol sy'n canolbwyntio ar

Ffigur 3.2: Trefn cyfweld newydd arfaethedig



waith i rieni unigol sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm wedi dangos bod cyfweliadau o'r fath yn helpu rhieni unigol i feddwl am waith, a bydd llawer yn mynd yn eu blaen i baratoi ar ei gyfer drwy ymuno â'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol. Felly, ein cam nesaf yw datblygu'r llwyddiant hwn drwy gynyddu amlder y cyfweliadau ymhellach.

21 Cynigiwn y canlynol, yn ddibynnol ar adnoddau:

- cynnal cyfweliadau gorfodol bob tri mis gyda rhieni unigol sydd wedi bod yn hawlio Cymhorthdal Incwm am flwyddyn o leiaf ac y mae eu plentyn ieuengaf yn 11 oed o leiaf;
- cyflwyno cyfweliadau bob chwe mis (ddwywaith mor aml â'r hyn sy'n digwydd nawr) ar gyfer pob rhiant unigol sydd wedi bod ar fudd-daliadau am flwyddyn o leiaf ac nad yw'n ofynnol iddynt gymryd rhan mewn cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith amlach;
- cyflwyno cynllun peilot sy'n darparu cymorth mwy dwys i rieni unigol yn ystod blwyddyn gyntaf eu hawl. Yn ystod y cyfnod hwn, mae llawer o bobl yn dal i geisio addasu i'w hamgylchiadau newydd a bydd angen rhagor o help arnynt.

Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith

22 Cydnabyddwn, o bosibl, nad yw cyswllt rheolaidd ag ymgynghorydd personol ynddo'i hun yn ddigonol i annog rhieni unigol i ddychwelyd i'r gwaith. Gall symud o fudd-daliadau i waith fod yn gam mawr, felly bwriadwn dreialu cymhelliant newydd i sicrhau bod rhieni unigol yn well eu byd os byddant yn cymryd camau difrifol tuag at baratoi ar gyfer gwaith. Bydd y cymhelliant hwn yn canolbwyntio, i ddechrau o leiaf, ar yr holl rieni unigol y mae eu plentyn ieuengaf wedi cyrraedd 11 oed. Pan fydd y plentyn ieuengaf yn dechrau addysg uwchradd, mae llawer o rieni unigol yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i ystyried dychwelyd i'r gwaith ond bod amgen cymorth arnynt i'w galluogi i gyflawni'r awydd hwn.

23 O blith rhieni unigol â phlentyn ieuengaf sy'n 11 oed o leiaf, mae 68 y cant eisoes yn gweithio. Yn genedlaethol, mae 150,000 o rieni unigol ar Gymhorthdal Incwm gyda'r plentyn ieuengaf rhwng 11 ac 16 oed. Mae'r grŵp hwn yn wynebu llai o rwystrau o ran gofal plant na'r rheini â phlant iau, ac mae'n rhesymol gofyn iddynt ystyried ymgymryd â gweithgareddau sy'n briodol i'w hamgylchiadau unigol a fydd yn eu paratoi i ailddechrau yn y farchnad lafur. Dywedodd yr OECD "unwaith y bydd cymorth cyflogaeth a gofal plant ar gael ar sail gynhwysfawr, byddai'n rhesymol ei gwneud yn ofynnol i rieni sengl ar Gymhorthdal Incwm ei ddefnyddio".[26] Erbyn 2008, bydd gan hanner yr holl deuluoedd fynediad i ofal yn yr ysgol ar gyfer plant rhwng 5 ac 11 oed. Erbyn 2010, bydd gan bob rhiant â phlant o oedran ysgol fynediad i ofal o 8am i 6pm drwy gydol y flwyddyn. Bydd 2,500 o ganolfannau plant ar gael erbyn 2008 a 1,000 ychwanegol erbyn 2010, gan ddarparu gwasanaethau i blant o oedran cyn ysgol.

24 Felly, mae'n rhesymol disgwyl i ragor o rieni unigol fanteisio ar y cymorth sydd

ar gael iddynt a chymryd camau i helpu eu hunain a'u teuluoedd. Ym mis Chwefror 2005, bu i ni gyhoeddi ein bwriad o ofyn i rieni unigol â phlant hŷn ymgysylltu â rhai gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, er mwyn paratoi ar gyfer dychwelyd i'r gwaith. I gydnabod y cyfranogiad hwn, byddwn yn talu premiwm ar ben y Cymhorthdal Incwm, ac awgrymwn y dylai hyn fod yn £20 yr wythnos. Byddwn yn profi'r taliad hwn i rieni unigol sydd wedi bod ar fudd-daliadau am o leiaf chwe mis ac y mae eu plentyn ieuengaf yn 11 oed neu'n hŷn. Bydd cael y premiwm newydd yn amodol ar y rhiant unigol yn ymgymryd â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith y cytunir arno gydag ymgynghorydd personol.

25 Cydnabyddwn, efallai nad yw gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn opsiwn uniongyrchol ar gyfer rhai rhieni unigol, er enghraifft y rheini â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol. Bydd cyfranogiad yn wirfoddol felly – os bydd rhiant unigol yn penderfynu peidio â gwneud unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, nid effeithir ar eu hawl i gael Cymhorthdal Incwm, ond ni fyddant yn gymwys i gael y taliad ychwanegol. Byddwn yn asesu

Ffigur 3.3: Enghreifftiau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n addas i rieni unigol

Math o weithgarwch	Enghreifftiau
Rhagflas	■ Treialon gwaith ■ Gwaith gwirfoddol strwythuredig ■ Paratoi ar gyfer hunangyflogaeth
Gwella cyflogadwyedd	■ Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol ■ Hyfforddiant sgiliau sylfaenol ■ Magu hyder ■ Mentora ■ Gogwydd y farchnad lafur/ymwybyddiaeth cyflogwr ■ Rheoli iechyd, er enghraifft rhaglenni Cleifion Arbenigol y GIG ■ Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith ■ Rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith ehangach a rhaglenni hyfforddi allanol
Cymorth chwiliad gwaith	■ Cymorth gan ymgynghorydd personol ■ Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ■ Asiantaethau allanol ■ Chwiliadau gwaith annibynnol

effeithiolrwydd y cynllun peilot cyn symud ymhellach.

26 Disgwyliwn y bydd mwyafrif y rhieni unigol â phlant hŷn yn awyddus i fanteisio ar y cymhelliant ariannol newydd, ac y byddant yn awyddus i weithio gydag ymgynghorydd personol i wella eu parodrwydd i weithio. Ond gwyddom hefyd fod llawer o rieni unigol ar fudd-daliadau sydd â phlant o dan 11 oed sy'n awyddus i weithio, a gallai sicrhau bod y premiwm newydd ar gael iddynt hwy eu hannog i gymryd camau gweithredol i ddychwelyd i'r farchnad lafur.

Cwestiwn 8:
A fyddai'n rhesymol ymestyn y Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith, a'r gofyniad cysylltiedig i gymryd camau yn ôl i gyflogaeth, ar gyfer rhieni unigol â phlant o dan 11 oed? Os felly, beth ddylai'r torbwynt oedran fod?

27 Bydd natur y gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn amrywio yn unol ag anghenion pob rhiant unigol. Gwyddom y bydd gan rai rhieni unigol â phlant hŷn brofiad gwaith diweddar ac na fydd angen braidd ddim cymorth arnynt i'w cael yn ôl i'r gwaith. Ond bydd eraill wedi bod ar fudd-daliadau am gryn dipyn o amser a bydd angen eu symud ymlaen yn fwy graddol. Bydd angen i rieni unigol nodi eu rhwystrau i'r gwaith a'r camau a fydd yn angenrheidiol i'w rheoli neu eu dileu.

28 Rhagwelwn y bydd y Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith yn daladwy am hyd at chwe mis. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gallai fod angen i rieni unigol sy'n dra phell oddi wrth y farchnad lafur ymgymryd â chyfres o weithgareddau, a phob un yn adeiladu ar yr un blaenorol, er mwyn dod â hwy yn agosach at gyflogaeth. Efallai y bydd angen i eraill ymgymryd â hyfforddiant sy'n rhedeg y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod chwe mis – efallai am nad oes cwrs penodol ar gael ar ddechrau'r cyfnod gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith. Byddwn felly yn ystyried, pan fydd ymgynghorydd personol a rhiant unigol wedi cytuno ar weithgarwch a fydd yn rhedeg y tu hwnt i chwe mis, pa un a ddylid talu'r premiwm am gyfnod hwy.

Cwestiwn 9:
O dan ba amgylchiadau y byddai'n rhesymol ymestyn cyfnod chwe mis y Premiwm Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith, yn eich barn chi?

Partneriaid

29 Cytunir yn gyffredinol bellach fod y rhaglen ar gyfer cefnogi a helpu rhieni unigol i mewn i waith yn hollbwysig iddynt hwy, i'w plant ac i'n hymgyrch yn erbyn tlodi ymysg plant. Ond mae angen i ni wneud mwy ar gyfer partneriaid pobl ar fudd-daliadau nad ydynt yn gweithio eu hunain ac nad ydynt yn ymwneud â'n rhaglenni o fudd-dal i waith gweithredol.

30 Rydym wedi datblygu llawer ers y darlun o deulu sy'n cynnwys un person yn ennill cyflog ac un priod dibynnol. Er na fydd rhai partneriaid mewn sefyllfa i ystyried gweithio, er enghraifft oherwydd cyfrifoldebau gofalu sylweddol, mae nifer sylweddol a allai, gyda'r cymorth priodol, symud i mewn i waith llawn amser neu ran amser. Byddant yn gallu cyfrannu at godi safonau byw ar eu cyfer hwy eu hunain a'u teuluoedd, a mwynhau'r

buddiannau ehangach a ddaw yn sgîl gweithio. Mae'n amlwg yn gywir y dylai pobl sy'n bartneriaid i hawlwyr budd-daliadau nad ydynt wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth gael eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith, neu gael y cyfle i gael mynediad i fyd gwaith am y tro cyntaf.

31 Ym mis Ebrill 2004, cyflwynwyd y Fargen Newydd ar gyfer Partneriaid ar ei newydd wedd, a gofyniad y dylid gofyn i bartneriaid pobl sy'n cael budd-daliadau gymryd rhan mewn cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith. Cynhelir y cyfweliadau hyn ar hyn o bryd ledled y wlad, ac maent yn gysylltiedig ag agor swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith. Gall partneriaid pobl sy'n cael Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Pensiwn, ac sy'n gweithio llai na nifer benodol o oriau yr wythnos, hefyd fanteisio ar help.

Gwneud gwahaniaeth

32 Mae ein polisïau eisoes yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl a'u teuluoedd ym mhob sector o gymdeithas. Gan adeiladu ar y dystiolaeth rydym wedi ei chasglu hyd yma, credwn y bydd y cymorth a'r cymhellion gwell a gynigir yn y bennod hon yn creu'r amgylchedd cywir er mwyn i rieni unigol a phartneriaid wneud eu penderfyniadau hyddysg eu hunain ac i ddod o hyd i'w llwybr yn ôl i waith.